Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Integredig i Blant Treláí a Chaerau

**Michaelston Road**
**Treláí**
**Caerdydd**
**CF5 4SX**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Gwerthusiad

Mae Canolfan Integredig i Blant Trelái a Chaerau yn lle diogel, tawel ac ysbrydoledig lle gall plant ifanc archwilio a dysgu trwy chwarae. Mae tîm o ymarferwyr medrus a phrofiadol yn darparu llawer o brofiadau a gweithgareddau cyffrous sy’n annog plant ifanc i ddatblygu eu medrau ac adeiladu ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r byd. Mae pennaeth a dirprwy bennaeth y ganolfan yn angerddol ynglŷn â chael dealltwriaeth gref o addysg plentyndod cynnar. Maent yn annog pob un o’r ymarferwyr, y llywodraethwyr a’r rhieni i ddeall nodau ac athroniaeth y ganolfan a chofio’r meddylfryd hwnnw wrth weithio gyda’r plant. Mae’r ffordd y daeth arweinwyr â phob rhan o’r ddarpariaeth at ei gilydd i sefydlu pontio esmwyth i blant o sesiynau cymunedol a theuluol a gofal plant trwodd i’r dosbarth meithrin Saesneg a’r dosbarth meithrin Cymraeg yn allweddol i lwyddiant y ganolfan. Mae’r holl ymarferwyr yn cymryd rhan mewn sgyrsiau proffesiynol i helpu gwneud penderfyniadau am ddyfodol y ganolfan. Yn ychwanegol, mae uwch arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn eu staff a’u dysgu proffesiynol er mwyn iddynt allu cynnig addysgu a phrofiadau dysgu o’r ansawdd gorau.

Lles a chynnydd plant sydd wrth wraidd gwaith y ganolfan. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddofn o ddatblygiad plentyn ac maent yn arsylwi ac yn dilyn anghenion a diddordebau pob plentyn. Mae cyfarfodydd dyddiol i drafod eu harsylwadau cynlluniedig a digymell o gynnydd plant yn eu galluogi i addasu’r amgylchedd neu’r adnoddau chwarae cyfoethog a chynnig profiadau i weddu i unigolion a grwpiau o blant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn meithrin brwdfrydedd plant ac yn eu herio i gymryd y camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r ffocws hwn ar ymgysylltu â phlant a’u cymell yn tanio eu chwilfrydedd naturiol. Mae plant yn ymgolli yn eu chwarae, yn dyfalbarhau â’u gweithgareddau ac yn hyderus i fentro’n bwyllog, gan herio’u hunain yn aml a dangos balchder yn eu cyflawniadau.

Mae medrau corfforol, creadigol a meddwl beirniadol llawer o blant yn hynod gryf oherwydd eu profiadau helaeth, yn enwedig y rhai yn yr awyr agored, gan gynnwys yn yr Ysgol Goedwig ac yn Ysgol y Traeth. Ym mhob ardal o’r amgylchedd dysgu, mae ymarferwyr yn annog y plant i roi cynnig ar brofiadau newydd, meddwl am ffyrdd creadigol i ddatrys problemau a chwestiynu’r byd o’u cwmpas. Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddeall iaith ac yn mynegi eu barn trwy fodelu geirfa a phatrymau brawddeg yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn eu cyflwyno i’r gair ysgrifenedig trwy storïau, rhigymau a chreu marciau. Maent yn cynnig profiadau iddynt sy’n arwain at archwilio a dealltwriaeth fathemategol gynnar, a’u cael i ymgyfarwyddo’n dyner â’r byd digidol. Mae plant yn ymateb trwy ddynwared, gofyn ac ateb cwestiynau, ymuno â chaneuon a rhigymau cyfarwydd, trin a thrafod llyfrau ac ‘ysgrifennu’ ar adegau priodol yn eu chwarae, efallai i greu rhestr siopa. Cânt eu hudo trwy gymharu maint eitemau o’u cwmpas, didoli eitemau yn ôl lliw neu faint, a defnyddiant flociau i greu strwythurau, sydd weithiau wedi’u dylunio’n ofalus i fod yn gymesur.

**Cameo – defnyddio cyfnodolion dysgu i gofnodi cynnydd plant a datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant yn y blynyddoedd cynnar**

Mae'r ganolfan yn defnyddio cyfnodolion dysgu i gofnodi cynnydd ym medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob plentyn. Maent yn cynnwys arsylwadau ysgrifenedig o'r plentyn a nodiadau maes digymell gan ymarferwyr, rhieni a phobl eraill. Mae ffotograffau a fideos yn cyfoethogi'r cyfnodolion dysgu; maent yn cofnodi cynnydd datblygiadol ac yn dangos sut mae plant yn creu cysylltiadau ar draws pob agwedd ar eu dysgu. Mae'r broses wedi esblygu ac yn parhau i wella dros gyfnod i ymateb i fyfyrio a thrafodaethau ymarferwyr o fewn y ganolfan a chydweithio â rhwydwaith lleol y blynyddoedd cynnar. Mae'r ddeialog broffesiynol hon yn cefnogi dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant.

Mae'r ffordd y mae'r amgylchedd meithrin yn dathlu hunaniaeth a phrofiadau'r plant a'r ymarferwyr trwy ffotograffau ac arddangosfeydd yn creu ymdeimlad cryf o berthyn ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae cynhesrwydd ac ymddiriedaeth wirioneddol rhwng ymarferwyr a phlant, ac maent yn gysurus yng nghwmni ei gilydd. Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl i rieni ac mae'n arbennig o bwysig i blant sy'n ei chael yn anodd ymgynefino i ddechrau neu'r rhai sydd efallai angen cymorth ychwanegol i wneud cynnydd. Mae ymarferwyr yn gwneud y gorau o arbenigedd ar y safle, fel Tîm Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar. Mae hyn yn eu helpu i nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar yn eu haddysg ac yn eu galluogi i gynnig y cymorth mwyaf priodol iddyn nhw a'u teuluoedd.

Mae uwch arweinwyr yn gwerthfawrogi eu hymarferwyr ac mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i wneud y ganolfan yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn parchu eu barn a'u proffesiynoldeb ac yn cefnogi eu lles yn effeithiol. Mae pawb yn cyfrannu'n ystyrlon at hunanwerthuso parhaus y ganolfan yn rheolaidd trwy'r flwyddyn ac yn helpu nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant. Mae camau i wella'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y ganolfan wedi codi proffil yr iaith yn y dosbarth meithrin Saesneg yn sylweddol ac wedi ymestyn datblygiad y Gymraeg yn y dosbarth meithrin Cymraeg. Mae hyn wedi rhoi'r medrau, yr hyder a'r brwdfrydedd i ymarferwyr ddefnyddio'r iaith bob dydd fel bod plant yn clywed, yn deall ac yn dechrau defnyddio'r iaith yn fwy naturiol. Mae gan lywodraethwyr amgyffrediad gwirioneddol o rôl y ganolfan yn y gymuned ac maent yn cefnogi penderfyniadau arweinwyr, fel gweithgareddau cyfoethogi cyllid i sicrhau nad yw plant sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais yn colli allan. Maent yn cynnig her sensitif mewn meysydd pwysig, gan gynnwys holi arweinwyr am benderfyniadau'n ymwneud â'r cwricwlwm a newidiadau mewn arferion asesu.

## Cydymffurfio statudol

**Trefniadau diogelu**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn achosi unrhyw bryder.

**Bwyta ac yfed yn iach**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

**Cyllid yr ysgol**

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion.

**Iechyd a diogelwch (diogeledd ar y safle)**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogeledd ar y safle yn achosi unrhyw bryder.

## Argymhellion a'r camau nesaf

Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn gysylltiedig â'r arolygiad hwn.

Dylai'r ganolfan barhau â'i thaith i wella.

## Gwybodaeth ychwanegol

**Addysgu a dysgu**

- Mae'r amgylchedd chwarae trefnus, pwrpasol a chefnogol yn gryfder yn y ganolfan. Mae plant yn elwa ar ystod eang o brofiadau cyfoethog, uniongyrchol.
- Mae ymarferwyr yn cymell plant yn dda ac yn darparu cwricwlwm diddorol ac amrywiol sy'n ysbrydoli plant i ddysgu. O ganlyniad, mae gan blant agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, maent yn chwilfrydig o oedran ifanc iawn ac yn dyfalbarhau wrth ddarganfod y byd o'u cwmpas.
- Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gref o ddatblygiad plentyn ac maent yn defnyddio hyn yn dda yn ystod cyfarfodydd dyddiol i werthuso cynnydd plant a llywio cynllunio.
- Mae arsylwadau ymarferwyr a thrafodaethau rheolaidd am unigolion yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth dda o anghenion a diddordebau pob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i addasu profiadau a'r amgylchedd bob dydd i ddiwallu anghenion datblygiadol pob un o'r plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae ymarferwyr yn gwerthuso cynnydd plant yn effeithiol, gan ddefnyddio cyfnodolion dysgu. Mae pob cyfnodolyn yn darparu cofnod clir o gynnydd a datblygiad plentyn trwy brofiadau uniongyrchol fel diwrnod archwilio, chwarae yn

y tywod a'r dŵr, ac yn ysgol y traeth. Mae ymarferwyr yn defnyddio nodiadau arsylwi, asesiadau, ffotograffau ac anecdotau i ddathlu dysgu plant, a'i rannu â rhieni.

- Mae'r ardaloedd dysgu presennol y tu mewn a'r tu allan yn cydgysylltu'n ddi-dor. Mae gan blant ryddid i archwilio'r amgylchedd dysgu trwy gydol y dydd.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau creadigol, ymchwilio a datrys problemau arbennig o dda mewn llawer o feysydd y ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu eu bod yn meithrin synnwyr cryf o'r byd o'u cwmpas.
- Mae gan lawer o blant fedrau corfforol a chydsymud da sy'n cael eu herio a'u mireinio'n barhaus. Mae plant yn cymhwyso'r medrau hyn yn hyderus wrth archwilio'r awyr agored, er enghraifft wrth ddefnyddio morthwyl a dril yn yr ardal gwaith coed.
- Mae plant yn defnyddio'u chwilfrydedd i ddatblygu medrau da wrth greu marciau y maent yn eu hatgyfnerthu wrth ddefnyddio clai, yn y tywod ar y traeth a cherrig mân yn y goedwig. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn bwrpasol, er enghraifft i 'ysgrifennu' nodiadau gartref at rieni, a pheintio darlun o'r hydref.
- Mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da yn y Saesneg a'r Gymraeg. Maent yn gwneud defnydd da o holi i annog plant i ddisgrifio eu meddwl, datrys problemau a dysgu oddi wrth gamgymeriadau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn hyderus ac yn canu rhigymau a chaneuon yn frwdfrydig. Mae llawer ohonynt yn dechrau dangos diddordeb yn y gair ysgrifenedig, trwy rannu llyfrau â phlant eraill yn ystod amser stori.
- Yn y dosbarth meithrin, mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg. Maent yn deall ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac yn mwynhau storïau a chaneuon Cymraeg yn ystod y dydd ac yn ystod amser teulu.
- Mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i'r byd digidol yn briodol trwy ddefnyddio camerâu digidol, cyfrifiaduron llechen a ffonau symudol pan mae'n berthnasol gwneud hynny.
- Mae plant yn dangos dealltwriaeth gynnar dda o lawer o gysyniadau mathemategol sylfaenol fel siapiau 3D, cymesuredd a chyfaint wrth iddynt ymchwilio â blociau adeiladu, arbrofi â dŵr a didoli gleiniau ar y blwch goleuadau.
- Mae corneli tawel, dathliadau o ystod o grefyddau a diwylliannau trwy gydol y flwyddyn a dydd Gwener dathlu yn cynnig amser i blant fyfyrio ar eu teimladau a meddwl am foesoldeb ac ysbrydolrwydd ar lefel y gallant ei deall. Mae cyfathrebu rhwng y ganolfan a phlant sy'n ymweld â theulu o gwmpas y byd yn dechrau datblygu synnwyr cryf o ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

### Gofal, cymorth a lles

- Lles a chynnydd plant sydd wrth wraidd gwaith y ganolfan, ac o ganlyniad, ceir ymdeimlad cryf o berthyn. Mae lluniau ar waliau yn cofnodi profiadau, chwilfrydedd a rhyfeddod plant ac mae hyn yn creu ardal ddiogel a chroesawgar i deuluoedd. Mae arddangosfeydd personol ar waliau, fel "Beth sydd mewn enw?" yn dathlu hunaniaeth plant ac yn gwahodd yr ymwelydd i'w byd bach nhw.
- Mae'r diwylliant diogelu yn gryf ar draws y safle cymhleth.
- Mae sylw trylwyr i ddiogelwch a diogeledd ar y safle a threfniadaeth dda yn rhoi rhyddid i blant archwilio'u hamgylchedd mewn modd pwyllog a hyblyg.
- Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddofn o ddiddordebau ac anghenion y plentyn unigol. O ganlyniad, mae'r plant yn ddiogel a hapus yn eu hamgylchedd ac yn fodlon mentro a herio'u datblygiad corfforol eu hunain.

- Caiff plant gyfleoedd da i leisio'u hoffterau wrth ddewis gweithgareddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd.
- Trwy ystod helaeth o brofiadau, storïau craidd ac amser grŵp gwerthfawr, mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu mynegi eu teimladau'n dda. Mae hyn yn golygu bod ysbryd cadarnhaol o barch ar y ddwy ochr yn y ganolfan.
- Mae ymarferwyr a phlant yn dangos gofal a chynhesrwydd tuag at ei gilydd ac yn gysurus yng nghwmni ei gilydd. Mae'r ymddiriedaeth a'r ddealltwriaeth hon rhwng plentyn ac oedolyn yn arbennig o bwysig i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai sydd weithiau'n cael trafferth ymgynefino.
- Mae'r ganolfan yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol, er enghraifft y seicolegydd addysg, yn ogystal ag asiantaethau ar y safle fel Tîm Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar, i gyflwyno cyngor teilwredig i nodi a meithrin unigolion. Mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant, ac mae hyn yn creu ymagwedd wedi'i thriongli sy'n galluogi plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, i bontio'n effeithiol rhwng darpariaethau i mewn ac allan o'r ganolfan.
- Gyda chymorth ardaloedd wedi'u diffinio'n glir, ymagweddau amlsynhwyraidd ac amgylcheddau sy'n llifo'n rhydd, mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.
- Mae cyfleoedd hyfforddi da ar gyfer ymarferwyr a rhieni yn eu harfogi â'r medrau a'r wybodaeth i ofalu am eu plant, a'u cefnogi.
- Cynigir llawer o weithgareddau dysgu i blant i godi ymwybyddiaeth gynnar o gyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn. Er enghraifft, bu plant yn helpu dylunio gardd ar y cyd ar gyfer y datblygiad tai newydd ar y safle, maent yn tyfu llysiau ac yn eu defnyddio i wneud cawl, ac yn cymryd rhan mewn ystod o 'alwedigaethau'. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda phren a chlai, gwehyddu a gwnïo, a chwarae â blociau, i gyd wedi'u gweu trwy'r cwricwlwm i ddatblygu medrau gydol oes.
- Mae'r ganolfan yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn helpu rhieni i ddeall effaith presenoldeb gwael ar gynnydd plant. Mae presenoldeb plant, er nad yw'n statudol, yn cymharu'n dda â'r meithrinfeydd annibynnol eraill yn yr ALl, sef 89%.

## Arwain a gwella

- Mae gan y pennaeth a'i thîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer y ganolfan, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar sefydlu ymagwedd gyfannol at les a chynnydd plant.
- Mae uwch arweinwyr yn gwerthfawrogi eu hymarferwyr ac aelodau staff eraill yn y ganolfan, yn cefnogi eu lles yn effeithiol, ac yn parchu eu barn.
- Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant y ganolfan yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi dod â phob rhan o'r ganolfan at ei gilydd, gan ddefnyddio ymagwedd strategol at ddatblygu a chynnwys yr holl ymarferwyr (o ofal dydd, meithrinfeydd a darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned) mewn sgyrsiau proffesiynol am y ffordd ymlaen ar gyfer y ganolfan.
- Mae arweinwyr yn ystyried barn pobl eraill yn ofalus cyn gwneud penderfyniadau strategol pwysig am ddatblygiadau yn y ganolfan.
- Mae arweinwyr yn meithrin ymdeimlad cryf o ymroddiad a chydweithio o fewn y tîm. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r holl ymarferwyr ac yn annog pob un ohonynt i gyfrannu at agweddau pwysig ar waith y ganolfan. Mae hyn yn cynnwys adborth rheolaidd i hunanwerthusiad y ganolfan a chyfraniadau gwerthfawr sy'n helpu nodi blaenoriaethau'r ganolfan ar gyfer gwella.

- Mae arweinwyr yn chwarae rôl bwysig yn sicrhau bod blaenoriaethau'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac mewn datblygu dealltwriaeth gynyddol ymarferwyr o asesu a dilyniant.
- Mae blaenoriaethau gwella a chamau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi'u diffinio'n glir ac mae prosesau trylwyr ar gyfer monitro effaith y gweithredu. Mae hyn yn golygu bod llywodraethwyr, ymarferwyr ac arweinwyr sy'n gyfrifol am bob blaenoriaeth yn gallu gwerthuso cynnydd.
- Mae dysgu proffesiynol tra ystyriol a chydlynus ar gyfer ymarferwyr ar draws y ganolfan yn dangos ymrwymiad arweinwyr i ymestyn medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr er mwyn iddynt allu cynnig addysgu a phrofiadau dysgu o'r safon orau i'r holl blant.
- Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl bwysig yng ngwaith y ganolfan ac yn deall y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i arweinwyr, ac yn cynnig her sensitif mewn meysydd pwysig, gan gynnwys holi arweinwyr am benderfyniadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, newidiadau mewn arferion asesu a gwariant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys ar gyfer diogelu a sicrhau bwyta ac yfed yn iach yn y ganolfan.
- Mae arweinwyr yn cydnabod manteision cynnal cysylltiadau strategol agos gyda gwasanaethau eraill sydd wedi'u lleoli yn y ganolfan. Mae'r cysylltiadau hyn yn ymestyn y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd.
- Gyda chymorth swyddog cyllid yr awdurdod lleol, mae pennaeth y ganolfan a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb gymhleth y ganolfan yn effeithiol, gan fonitro llawer o wahanol ffrydiau cyllid.
- Mae gwariant yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol a chefnogi dysgu proffesiynol ymarferwyr.
- Mae'r ganolfan yn defnyddio'i Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn effeithiol i gynorthwyo rhieni i annog datblygiad iaith yn Gymraeg a Saesneg, ac ariannu gweithgareddau cyfoethogi fel nad yw plant sydd wedi'u heffeithio gan dlodi ac anfantais o aelwydydd incwm isel yn colli allan.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

## Atodiad 1: Ynglŷn â Chanolfan Integredig i Blant Trelái a Chaerau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Canolfan Integredig i Blant Trelái a Chaerau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 69 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 0 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 69 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | Dd/b |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/11/2023 |

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar y ddarpariaeth addysg yn y ddau ddosbarth ar gyfer disgyblion oedran meithrin, un cyfrwng Cymraeg (dosbarth meithrin Cymraeg) ac un cyfrwng Saesneg (dosbarth meithrin Saesneg). Mae'r dosbarthiadau meithrin yn rhan o'r ganolfan gyfan sy'n cynnwys darpariaeth gofal plant a chymunedol. Er nad arolygodd y tîm y meysydd hynny o'r ddarpariaeth, mae'n bwysig nodi bod pob rhan o'r ganolfan yn cydweithio'n agos o dan arweinyddiaeth y pennaeth a dirprwy bennaeth y ganolfan.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Atodiad 2: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/01/2024